

YSGOLION YNYS MON

Ysgol Corn Hir

Mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion am **werthoedd moesol** a chydaddoldeb yn datblygu'n gyson. Maent yn ymdrin â thestunau fel annhegwch at eraill yn dda, er enghraifft wrth godi arian i adeiladu cartrefi a darparu adnoddau i drigolion pentref Omwambini yn Kenya. Mae'r cartrefi wedi eu henwi'n fwthyn Corn Hir a Nant y Pandy sy'n cefnogi dealltwriaeth disgyblion o faterion byd eang yn grefftus.

Caiff agweddau **ysbrydol, moesol** a chymdeithasol eu cyflwyno mewn **gwasanaethau addoli** lle dethlir pwysigrwydd amrywiaeth, parch a goddefgarwch o fewn y gymuned leol a'r byd ehangach yn briodol.

Yn mynychu gwasanaethau ac **addoli dyddiol** ar y cyd.

Ysgol Gynradd Cemaes

Maent yn hyrwyddo datblygiad **ysbrydol, moesol**, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae cyfnodau cyd-addoli gwerthfawr yn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ystyried safbwyntiau eraill, yn ogystal â rhoi cyfle iddynt fyfyrio ar sut y gellir edrych ar ôl ei gilydd. Mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar **foesau crefyddol** ac ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cael cyfle i astudio amrywiaeth eang o **grefyddau** megis Hindwâeth ac Iddewiaeth a chydweithio ar weithgareddau hynod ddiddorol fel creu lamp Diva a phatrymau Rangoli a Mendi.

Yn mynychu gwasanaethau ac **addoli dyddiol** ar y cyd.

Ysgol Sefydledig Caergeiliog

Mae **addoli dyddiol** ar y cyd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddatblygiad **ysbrydol a moesol** disgyblion. Mae'r cyfnodau hyn yn helpu disgyblion i ddeall a myfyrio ar ystod eang o faterion **moesegol a moesol**.

Yn mynychu gwasanaethau ac **addoli dyddiol** ar y cyd.

Ysgol Cybi

Yn mynychu gwasanaethau ac **addoli** dyddiol ar y cyd.

Ysgol Gynradd Biwmares

Yn mynychu gwasanaethau ac **addoli** dyddiol ar y cyd.

Mae dealltwriaeth llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol o **werthoedd moesol**, cymdeithasol a chydaddoldeb yn datblygu'n briodol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion, gan gynnwys eu datblygiad **ysbrydol, moesol**, cymdeithasol a diwylliannol yn effeithiol.

Mae'r **rheithor** ym ymweld â'r ysgol yn gyson, gan **addysgu gwerthoedd moesol ac ysbrydol** pwysig i'r disgyblion.

Ysgol Santes Fair

Mae'r cysylltiadau **cryf â'r eglwys leol** yn helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â'r hyn sy'n dda ac yn ddrwg, ac yn annog disgyblion i fyfrio ar ystod eang o **faterion moesegol a moesol** yn synhwyrol.

Yn mynychu gwasanaethau ac **addoli dyddiol** ar y cyd.

O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda i fod yn ddinasyddion **moesegol** a gwybodus.

Ysgol Gynradd Esceifiog

Mae'r trefniadau addoli ar y cyd yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddatblygu dealltwriaeth **foesol ac ysbrydol** disgyblion. Mae awyrgylch y gwasanaethau yn gynhwysol, er enghraifft wrth i ddisgyblion ddefnyddio iaith arwyddo tra'n canu. Yn ogystal, mae diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad **moesol**, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol, er enghraifft drwy gynig amrywiaeth o gyfleoedd priodol i ddisgyblion archwilio syniadau newydd. Mae disgyblion yn **ymchwilio i Islam, gan gymharu â chrefyddau eraill** wrth astudio Qatar a chystadleuaeth Cwpan y Byd, er enghraifft.

Yn mynychu gwasanaethau ac **addoli** dyddiol ar y cyd.

Ysgol Gymuned Moelfre

Yn mynychu gwasanaethau **ac addoli** dyddiol ar y cyd.

Ysgol Goronwy Owen

Yn mynychu gwasanaethau **ac addoli** dyddiol ar y cyd.

Ysgol Gyfun Llangefni

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad **ysbrydol, moesol**, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

Yn mynychu gwasanaethau ac **addoli dyddiol** ar y cyd.

Uwchradd Bodedern

Mae'r rhaglen **Addysg Bersonol a Chymdeithasol** (ABCh) a'r profiadau i hyrwyddo datblygiad **ysbrydol, moesol**, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn addas. Mewn gwersi ABCh ac **addysg grefyddol**, er enghraifft, mae disgyblion yn cael eu hannog i ddeall a pharchu diwylliannau a **chrefyddau eraill**.

Yn mynychu gwasanaethau **ac addoli dyddiol** ar y cyd.